

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor gynhaliwyd nos Iau, Mai 3ydd, 2018 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Marian Evans, (Cadeirydd); William Ifor Hughes; Aled Lloyd Evans; Margaret Griffith, (Is gadeirydd); Tegid Jones; Trefor Wyn Jones; Naomi Jones; Sian Angharad Parry; Thomas Prys Jones; Gareth O Davies; Angela Williams a'r Clerc. Doedd neb o'r trethdalwyr yn bresennol.

1. a. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a chafwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Aled Davies; Naomi Jones; Anwen Jones a Sion Aled Jones.
b. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod blynyddol Mai 11eg, 2017.
c. Materion yn codi o'r cofnodion. Doedd dim byd yn codi o'r cofnodion
2. Adroddiad ar waith y flwyddyn Ebrill1af, 2017 i Fawrth 31ain, 2018 gan y Cadeirydd. Soniwyd am waith arferol y Cyngor sef torri'r llwybrau yn y gymuned; torri cae chwarae Llanygybi; torri a chlirio tir y Cyngor ym Maenywern, Llanystumdwy; cadw safle bedd David Lloyd George yn daclus a chadw'r safleoedd bws yn y gymuned yn daclus. Ar y cyfan bu'n flwyddyn dawel, cafwyd pum cynghorydd newydd a bu sawl gohebiaeth gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd ynghylch tenantiaid yn cyfnewid tai gyda'r un ateb bod deddf gwlad yn eu rhwystro rhag gwneud dim ynghylch hyn. Eto mae'n bwysig bod y Cyngor yma yn parhau i ddatgan anfodlonrwydd.
Rhannwyd £7,250- yn gymunedol, £6,450- ohono o Gyfrif Budd Cymunedol yn deillio o arian y fferm solar yn Llanarmon; gwnaed yn siwr bod halen yn y biniau halen; cyfranwyd £2,000- tuag at gostau cynnal Toiled Cyhoeddus Llanystumdwy; penderfynwyd talu am roi WiFi yn y dair ganolfan yn y gymuned sef Neuadd Llanystumdwy, Neuadd Goffa Chwilog a Festri Capel Pencaenewydd.
I orffen diolchwyd i'r Cyngorwyr ac i'r Clerc am waith y flwyddyn.
3. Adroddiad Ariannol am y flwyddyn Ebrill1af, 2017 i Fawrth 31ain, 2018 gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Rhannwyd taflenni yn dangos crynodeb o gyfrifon Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 2018 a chysoniad y banc am y flwyddyn ac eglurodd y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol bob gwariant ac incwm yn fanwl ac yna bu cyfle i ofyn cwestiynau. Penderfynwyd derbyn y cyfrifon am y flwyddyn ac arwyddwyd y llyfr cyfrifon a'r daflen grynodeb gan y Cadeirydd a'r Clerc. Yn awr gellir mynd ymlaen gyda'r archwiliad ariannol mewnol. Diolchwyd i'r Clerc.
4. Cyfle i'r trethdalwyr ofyn cwestiynau. Doedd dim trethdalwyr yno i ofyn cwestiynau
5. Dewisiwyd swyddogion am y flwyddyn Ebrill1af, 2018 i Fawrth 31ain, 2019: a) Cadeirydd; yr Is gadeirydd presennol, y Cynghorydd Margaret Griffith. b) Is gadeirydd; tro Wardiau Llanystumdwy a Rhoslan ydoedd ac yn ei habsenoldeb, penderfynwyd enwebu y Cynghorydd Anwen Jones. c) Ysgrifennydd a Swyddog Ariannol Cyfrifol. Cytunodd y Clerc i gario ymlaen eto am blwc ond roedd am wneud cyhoeddiad yng nghyfarfod arferol y Cyngor, ar ôl y Cyfarfod Blynyddol. ch) Elusen William Ellis, Llanystumdwy, Cyngorwyr Ward Llanystumdwy. Cadarnhawyd mai Cyngorwyr Ward Llanystumdwy fydd yn rhannu'r arian yma.

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk